CARDIGAN WASTEWATER TREATMENT WORKS NEWSLETTER

March 2025

This is not a circular
Owner/Occupier

Hello

As you may be aware, we're planning to invest over £20 million to fully replace the treatment process at Cardigan Wastewater Treatment Works (WwTW), and we're writing to you to update you on the next steps of our project.

Our work

After being granted planning permission by Ceredigion County Council at the end of January 2025, we have started preparations to begin our main construction work at Cardigan WwTW from April 2025. This work has included removing hedgerow and trees prior to bird nesting season, in line with our planning permission and licences, diverting a rising main and a telecoms cable. We have also started setting up our temporary compound area, which is on located on land next to our existing treatment works. While we have been setting up this compound, you may have noticed an increase in lorry movements to and from our site, this has allowed us to transport stone and welfare cabins to the site, and we apologise for any inconvenience this may have caused.

Why do we need to do this work?

Saltwater from the tidal Afon Teifi is affecting the bacteria used in our treatment process and can sometimes result in Cardigan WwTW struggling to cope with the amount of wastewater entering the works. This can cause local storm overflows to release more than they should.

Since identifying the issue, we have already invested considerably to remove sources of saltwater infiltration in our network, and we completed a 12-month trial which has helped us to identify a new treatment process that is proven to be the most effective in coping with the varying levels of seawater present at Cardigan.

The new treatment process, which we will begin installing from April 2025, will make the works perform more effectively and help to reduce the spills from this site and limit any environmental harm.

In the meantime, we installed a new additional treatment process in October 2023 to help the works cope better during storm conditions. This will be in place until our work to replace the treatment works at Cardigan is complete in 2027. This forms part of our wider work to help improve the water quality of the river Teifi, and we're investing over £5million in key treatment works, namely Pencader (£2.8m), Lampeter (£1.3m) and Cwrtnewydd (£1.2m) by the end of 2025. We will also be working to deliver further phosphorus removal projects and meet tighter permits at more sites along the Teifi by 2032.

Our access route

We are aware that there is some concern regarding our access route to the treatment works and we would like to reassure you that we take our responsibility in ensuring the safety of members of the public and our site teams extremely seriously.

To assist with the assessment of the access route, we carried out a feasibility study to review the potential routes to our site, and due to several constraints found on the alternative route, the most feasible route for us to use for this project was our existing permanent access to Cardigan WwTW. Some of the constraints of the alternative route included further land and ecological investigations, additional land purchase and the requirement to install a new road through the length of a field, as well as road widening to the existing part of road and traffic management with the ongoing store development by Maes y Dderwen. All of these factors would have considerably delayed this essential work.

CARDIGAN WASTEWATER TREATMENT WORKS NEWSLETTER

March 2025

We would like to reassure you that we are working closely with the Ceredigion Council's Highways and Parks departments, to ensure the most suitable traffic management and mitigations are in place along this route.

We would like to highlight that Cardigan WwTW is already an active operational site, which has ongoing maintenance and other standard deliveries which may require larger vehicles to travel this route – this is separate to our investment project and is part of the normal daily operational running of the site.

Supporting the community

We know that our work can sometimes cause disruption in the communities we are working in, and we want to help our customers and local groups make a difference in the areas they live.

If your community group, school or non-profit organisation is hosting an event or could do with some volunteering assistance on an upcoming project, let us know and we'll see what we can do to lend a helping hand. We've offered support with conservation work, litter picking and arts and crafts days to name a few. We want to help however we can, so please get in touch by emailing **community@dwrcymru.com**.

Want to know more?

You can stay up to date with our progress on our website at **dwrcymru.com/inyourarea** and search for Cardigan. Here you can register to receive updates by email or text about Welsh Water work in your area. We've also included a handy QR code below which will take you directly to the Cardigan WwTW section.

Come and meet us!

We're holding a drop-in information event and everyone is welcome to call in.

We'll be happy to tell you about our work and answer any questions you may have.

Thursday, 3rd April 2025

4pm to 7pm

Theatre Mwldan, Bath-House Road, Cardigan, SA43 1JY

Room M6



NEWYDDLEN GWEITHFEYDD TRIN DŴR GWASTRAFF ABERTEIFI

Mawrth 2025

Nid cylchlythyr yw hwn
Y Perchennog/Deiliad

Helo 'na

Fel y gwyddoch chi, rydyn ni'n bwriadu buddsoddi mwy nag £20 miliwn i ddisodli'r broses drin yng Ngweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Aberteifi (GTDG) yn llwyr, ac rydyn ni'n ysgrifennu atoch i'ch diweddaru ar y camau nesaf yn ein prosiect.

Ein gwaith

Ers cael caniatâd cynllunio gan Gyngor Sir Ceredigion ddiwedd Ionawr 2025, rydyn ni wedi bod wrthi'n paratoi i ddechrau ein prif waith adeiladu yn GTDG Aberteifi o Ebrill 2025 ymlaen. Mae'r gwaith yma wedi cynnwys clirio coed a phrysgwydd cyn dechrau tymor nythu'r adar yn gyson â'n caniatâd cynllunio a'n trwyddedau, a dargyfeirio prif bibell godi a chebl telathrebu. Rydyn ni wedi dechrau gosod ein safle gwaith dros dro ar dir wrth ymyl ein gweithfeydd trin cyfredol hefyd. Wrth i ni osod y safle gwaith yma, hwyrach y byddwch chi wedi sylwi bod mwy o lorïau'n mynd a dod i'r safle. Mae hyn wedi ein galluogi ni i gludo cerrig a chabanau lles i'r safle, ac ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra y mae hyn wedi ei achosi.

Pam fod angen cyflawni'r gwaith yma?

Mae dŵr hallt o afon Ianwol y Teifi'n effeithio ar y bacteria a ddefnyddir yn ein proses drin, ac mae'n gallu golygu bod y gweithfeydd trin yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r holl ddŵr gwastraff sy'n dod i mewn. Mae hyn yn gallu gwneud i orlifoedd storm lleol ryddhau mwy nag y dylen nhw.

Ers clustnodi'r broblem, rydyn ni wedi buddsoddi'n sylweddol i atal y dŵr hallt rhag ymdreiddio i'n rhwydwaith, ac fe gyflawnon ni treial 12 mis o hyd sydd wedi ein helpu ni i glustnodi proses drin newydd, sydd wedi bod yn effeithiol wrth ymdopi â'r lefelau amrywiol o ddŵr môr sy'n bresennol yn Aberteifi.

Bydd y broses drin newydd, y byddwn ni'n dechrau ei gosod o Ebrill 2025 ymlaen, yn gwneud i'r gweithfeydd berfformio'n fwy effeithiol ac yn helpu i leihau gollyngfeydd o'r safle hwn gan gyfyngu ar unrhyw ddifrod amgylcheddol.

Yn y cyfamser, ym mis Hydref 2023, fe osodon ni broses drin ychwanegol newydd i gynorthwyo'r gweithfeydd i ymdopi'n well dan amodau storm. Bydd hyn yn ei le nes bod ein gwaith i ddisodli'r gweithfeydd trin yn Aberteifi wedi ei gwblhau yn 2027. Mae hyn yn rhan o'n gwaith ehangach i wella ansawdd dŵr afon Teifi, ac rydyn ni'n buddsoddi dros £5 miliwn yn ein gweithfeydd trin allweddol, sef Pencader (£2.8m), Llanbedr Pont Steffan (£1.3m) a Chwrtnewydd (£1.2m) erbyn diwedd 2025 hefyd. Yn ogystal, byddwn ni'n gweithio i gyflawni prosiectau tynnu ffosfforws pellach a/neu i gyflawni gofynion trwyddedau mwy llym ar ragor o safleoedd ar hyd afon Teifi tan 2032.

Ein llwybr mynediad

Rydyn ni'n ymwybodol fod yna bryderon ynghylch ein llwybr mynediad i'r gweithfeydd trin, a hoffem eich sicrhau chi ein bod ni'n cymryd ein cyfrifoldeb dros sicrhau diogelwch y cyhoedd a'n timau ar y safle o ddifri calon.

Er mwyn helpu i asesu'r llwybr mynediad, fe gyflawnon ni astudiaeth hyfywedd i adolygu'r llwybrau posibl i'n safle, ac oherwydd nifer o gyfyngiadau ar y llwybr amgen, y llwybr mwyaf hyfyw i ni ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect oedd ein llwybr mynediad parhaol i GTDG Aberteifi.

Roedd cyfyngiadau'r llwybr amgen yn cynnwys ymchwiliadau pellach i'r tir a'r ecoleg, prynu tir ychwanegol, a'r gofyniad am osod ffordd newydd trwy gae cyfan, yn ogystal ag ehangu'r rhan gyfredol o'r ffordd a rheoli traffig, gyda datblygiad y siop newydd ar droed wrth Maes y Dderwen. Byddai'r holl ffactorau hyn wedi achosi oedi sylweddol i'r gwaith hanfodol yma.

Hoffem eich sicrhau chi ein bod ni'n cydweithio'n agos ag adrannau Priffyrdd a Pharciau Cyngor Ceredigion er mwyn sicrhau bod y mesurau rheoli traffig a'r camau lliniaru mwyaf addas yn gweithredu ar hyd y ffordd.

Hoffem bwysleisio hefyd fod GTDG eisoes yn safle gweithredol byw, lle mae gwaith cynnal a chadw yn digwydd a cherbydau cludo'n cyrraedd yn gyson, sy'n golygu bod angen i gerbydau mwy ddefnyddio'r ffordd – mae hynny ar wahân i'n prosiect buddsoddi ac yn rhan o weithrediad arferol pob dydd y safle.

Cynorthwyo'r gymuned

Rydyn ni'n gwybod bod ein gwaith yn gallu bod yn drafferthus i'r cymunedau lle rydyn ni'n gweithio, ac rydyn ni'n awyddus i helpu ein cwsmeriaid a grwpiau lleol i wneud gwahaniaeth yn yr ardaloedd lle maen nhw'n byw.

Os yw eich grŵp cymunedol, ysgol neu sefydliad nid-er-elw yn cynnal digwyddiad neu'n chwilio am gymorth gwirfoddoli ar gyfer prosiect, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ein gorau glas i roi help llaw i chi. Rydyn ni wedi cynorthwyo gwaith cadwraeth, codi sbwriel a diwrnodau celf a chrefft i enwi ond ychydig. Rydyn ni eisiau helpu sut bynnag y gallwn ni, felly cysylltwch trwy e-bostio **community@dwrcymru.com**.

Am glywed rhagor?

Gallwch glywed y newyddion diweddaraf am y gwaith ar ein gwefan yn **dwrcymru.com/yneichardal** a chwilio dan Aberteifi. Yno hefyd cewch gofrestru i dderbyn diweddariadau am waith Dŵr Cymru trwy e-bost neu neges destun. Rydyn ni wedi cynnwys cod QR hwylus hefyd a fydd yn mynd â chi'n uniongyrchol i adran GTDG Aberteifi.

Dewch i gwrdd â ni!

Byddwn ni'n cynnal digwyddiad rhannu gwybodaeth hefyd, a chroeso i unrhyw un alw draw.

Byddwn ni'n hapus i rannu gwybodaeth am ein gwaith ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Dydd Iau, 3 Ebrill 2025

4pm i 7pm

Theatr Mwldan, Heol y Bathdy, Aberteifi, SA43 1JY

Ystafell M6

